| | Gweithredu : | Person : | Dyddiad Adolygu : | Cwblhawyd : | Sylwadau : |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 1 | Nid oedd y Protocolau Meddygol yn cyfeirio'n benodol at y clinig | Helen Woodley<br>Andrea Flowers | 21 May 2014 | 22 May 2014 | Mae'r Protocolau Meddygol fel arfer yn cael eu cadw ar y Fewnrwyd fel eu bod ar gael i'r holl staff eu gweld. Mae copi caled wedi ei gynhyrchu ar gyfer y clinig a thudalen flaen bwrpasol wedi ei chreu. |
| 2 | Mae arolygwyr wedi argymell bod staff y clinig yn ymgymryd â hyfforddiant rheoli data a chyfrinachedd. | Helen Woodley | Amherthnasol | Yn parhau | Mae pob aelod newydd o staff yn mynd ar gwrs hyfforddiant cynefino am 3 diwrnod i gael hyfforddiant cychwynnol ar gofnodion meddygol, rheoli data a chyfrinachedd.<br>Mae'n ofynnol hefyd i’r holl staff ddarllen y Polisïau Corfforaethol canlynol pan gânt eu hadolygu neu o leiaf unwaith y flwyddyn:<br>"Polisi Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data" a "Polisi Rheoli Cofnodion".<br>Yn ogystal mae'r cwmni wedi cyflwyno modiwl newydd yn ei raglen hyfforddiant electronig ar gyfer 2014, sy'n dwyn y teitl "Rheoli Data." |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Mynegodd yr arolygwyr bryderon ar adeg yr ymweliad nad oedd y system gwresogi dŵr wedi bod yn gweithio ers wythnos. | Helen Woodley<br>Andrea Flowers<br>Laura Norton<br>Landlord | 28 May 2014 | 22 May 2014 | Tynnwyd y mater i sylw'r Adran Eiddo yn unol â Pholisi'r Cwmni cyn cael ei gyfeirio wedyn i'r Landlord er mwyn ei drwsio. Archebwyd darn er mwyn cwblhau'r gwaith trwsio angenrheidiol.<br><br>Cwblhawyd Asesiad Risg gan Reolwr y Clinig yn dilyn trafodaeth gyda'r Nyrs Rheoli Heintiau. Y staff i gyd i lanhau eu dwylo gyda diheintydd alcohol yn ogystal â sebon a dŵr pan nad oedd dŵr poeth ar gael.<br>Nid oedd triniaethau o fewn yr amserlen yn ystod y cyfnod pan nad o oedd dŵr poeth ar gael ar y safle, felly ychydig o ymwneud a fu gyda'r cleifion, ac mae glanhau'r dwylo ag alcohol yn ffordd effeithiol o sicrhau glendid dwylo ym mhob sefyllfa glinigol lle nad oes cyfleusterau golchi dwylo ar gael. |